

CYNLLUN BUSNES SWYDDFA CYMRU

2011 -15

Nod: Hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn y Deyrnas Unedig

Diweddarir y cynllun busnes hwn o dro i dro

Diweddarwyd diwethaf: Mehefin 2011

CYFLWYNIAD

Pwrrpas Swyddfa Cymru

Mae Swyddfa Cymru yn bodoli er mwyn gwasanaethu Cymru a'i phobl. Ei phrif fwriad ydi cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y gwaith o hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn y Deyrnas Unedig, gan fod yn llais i Gymru ar fwrdd y Cabinet. Ni yw gwarcheidwaid setliad datganoli Cymru. Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru fwy llewyrchus, mwy uchelgeisiol a thecach i bawb. Byddwn yn cyflawni hyn trwy weithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr ar hyd a lled Whitehall, Llywodraeth Cymru ac eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio er mwyn gwireddu'r dyhead hwn.

Rydym yn llais cryf i Gymru o fewn Whitehall, gan sicrhau fod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn llawn ac yn effeithiol yn y nifer o feysydd heb eu datganoli, sydd yn cynnwys ymhlith eraill, amddiffyn, cyllid, polisi economaidd ac ariannol (gan gynnwys refeniw, tollau a threth), heddlu, cyfiawnder troseddol a sifil, nawdd cymdeithasol, cyfraith a chysylltiadau cyflogaeth, ynni, materion cyfansoddiadol, Y Gyfraith Gwahaniaethu, post, telegyfathrebu a darlledu.

Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo Cymru o fewn y Llywodraeth a thu hwnt fel lle atyniadol i fyw, ymweld, gweithio a gwneud busnes, a bod yn gyfrwng i leisiau bobl Cymru gael eu clywed yng nghanol Llywodraeth. Tair blaenoriaeth benodol ar gyfer Swyddfa Cymru yn y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau fod y setliad datganoli yn magu gwreiddiau yn dilyn y bleidlais 'ie' yn Refferendwm Cymru, sefydlu proses er mwyn adolygu cyllido ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru¹ a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a gweithio gydag eraill - yn enwedig Comisiwn Ffiniau i Gymru - er mwyn sefydlu mecanwaith i adolygu ffiniau etholaethau'r Cynulliad.

Gwerthoedd

Bydd Swyddfa Cymru yn cadw at ei gwerthoedd sylfaenol bob amser, hynny yw;

- lles pobl Cymru yw ein blaenoriaeth hollbwysig a dyna sy'n ffurfio pob agwedd ar ein gwaith;
- sicrhau rhagoriaeth ac ansawdd ym mhopeth a wnawn;
- bod yn gyflogwr o'r radd flaenaf, wedi ymrwymo i ddatblygu ein staff a gofalu am eu lles;
- ymrwymiad i dryloywder a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill.

¹ Ers Mai 2011 defnyddir y teitl Llywodraeth Cymru mewn cyhoeddiadau, gohebiaeth ac yn y cyfryngau, ond sylwer bod y teitl statudol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, yn parhau.

AMCANION SWYDDFA CYMRU

Amcan 1:

Goruchwyllo a chynnal y setliad datganoli a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Deilliannau

- Setliad datganoli cydlynol a sefydlog
- Deddfwriaeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn adlewyrchiad cywir o'r setliad datganoli
- Perthynas effeithiol rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Prif weithgareddau:

A. Helpu cyflwyno rhaglen y Llywodraeth o adnewyddiad democrataidd a gwleidyddol yng Nghymru.	
▪ Sefydlu proses tebyg i Gomisiwn Calman yr Alban, yn dilyn Refferendwm Cymru	Hydref 2011
▪ Gweithio gydag eraill - yn enwedig Comisiwn Ffiniau i Gymru - i sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Cynulliad.	Parhaus
▪ Gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau datblygiadau cyfansoddiadol - er enghraifft trwy'r Bil Llywodraeth Cyfnod Penodol a sefydlu Comisiwn i ystyried creu Bil Hawliau'r DU - ac adlewyrchu buddiannau Cymru yn llawn.	Parhaus
B. Cynghori ar y cysylltiad rhwng polisi a deddfwriaeth wedi'u datganoli a heb eu datganoli	
▪ Cefnogi Adrannau eraill y Llywodraeth er mwyn sicrhau fod deddfwriaeth y DU yn adlewyrchu'r setliad datganoli, gan geisio cael sêl bendith ddeddfwriaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan fo angen hynny	Parhaus
▪ Adolygu a diwygio Canllawiau ar Ddatganoli yn dilyn Refferendwm Cymru	Haf 2011
▪ Cyflwyno Gorchmynion Deddf Llywodraeth Cymru	Fel bo'r angen
▪ Monitro busnes Seneddol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Ar waith
▪ Sicrhau dealltwriaeth glir o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru	Ar waith

C. Annog a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau wedi'u datganoli.

▪ Helpu sefydlu rhwydwaith o weinidogion datganoli, a darparu'r rhwydweithiau cefnogi priodol	Wedi'i gwblhau
▪ Cydweithio o ddydd i ddydd gyda'r Cydbwyllgor Gweinidogion, y Cyngor Prydeinig Gwyddelig a Phedrochr y Gweinidogion Cyllid er mwyn datblygu buddiannau Cymreig.	Parhaus
▪ Helpu cynyddu ymwybyddiaeth o faterion a setliadau datganoli ar hyd a lled Whitehall.	Ar waith
▪ Cefnogi Gweinidogion a gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ymwneud effeithiol rhwng Gweinyddiaethau	Parhaus

CH. Monitro a cheisio rheoli materion trawsffiniol.

▪ Sefydlu proses ar gyfer monitro materion trawsffiniol.	Hydref 2011
▪ Gweithio gyda chydweithwyr o fewn y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru er mwyn delio gydag unrhyw faterion sy'n codi mewn meysydd trawsffiniol.	Fel bo'r angen

Amcan 2:

Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn y Llywodraeth, a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisiau'r Llywodraeth yng Nghymru

Deilliannau

- Buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn ym mhrosesau llunio a gweithredu polisiau llywodraeth y DU.
- Pobl Cymru yn gwybod beth ydi polisiau llywodraeth y DU mewn meysydd heb eu datganoli ac yn eu deall.

Prif weithgareddau:

A. Gweithredu fel adfocad i Gymru yng nghanol y Llywodraeth	
▪ Cefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog yn y gwaith o sicrhau fod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn effeithiol yn y Cabinet ac ym Mhwyllgorau'r Cabinet.	Parhaus
▪ Cefnogi mewnbwn Gweinidogol i ffurfio a gweithredu polisi a deddfwriaeth ar hyd a lled Whitehall, un ai trwy ohebiaeth neu mewn cyfarfodydd.	Parhaus
▪ Cynghori Adrannau'r Llywodraeth ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg	Fel bo'r angen
B. Cynrychioli buddiannau Cymru yn y prif feysydd polisi sydd heb eu datganoli	
▪ Sicrhau fod buddiannau ac anghenion Cymru yn cael eu deall wrth i agenda diwygio cyflogaeth a lles y Llywodraeth gael ei rhoi ar waith	Ar waith
▪ Cynrychioli buddiannau Cymru wrth weithredu'r Arolwg Strategol i Amddiffyn a Diogelwch	Camau cychwynnol Haf 2011
▪ Cynrychioli buddiannau Cymru wrth i ddiwygiadau polisi gael eu datblygu a'u rhoi ar waith	Haf 2012
C. Sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn rhaglen deddfwriaethol y Llywodraeth, gan gynnwys darpariaethau Cymreig lle bo hynny'n briodol.	
▪ Gweithio gyda thimau Swyddfa'r Cabinet a'r Bil Adrannol er mwyn sicrhau fod buddiannau Cymreig yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y rhaglenni deddfwriaethol a Biliau Seneddol.	Parhaus

C. Sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, gan gynnwys darpariaethau Cymreig lle bo hynny'n briodol.

- | | |
|---|----------------|
| ▪ Hwyluso'r ymwneud gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r Biliau gael eu datblygu | Fel bo'r angen |
|---|----------------|

CH. Cyfathrebu polisiâu ac oblygiadau'r Llywodraeth i Gymru i'r Senedd, y cyhoedd yn gyffredinol, y cyfryngau a chyrrff allanol, a sicrhau bod pobl yn gallu gwneud sylwadau i swyddogion a Gweinidogion.

- | | |
|--|-------------|
| ▪ Datblygu prosesau er mwyn sicrhau ymwneud effeithiol gydag aelodau Seneddol ac Arglwyddi | Hydref 2011 |
| ▪ Ymweliadau gan Weinidogion a chyfarfodydd rheolaidd ledled Cymru ac ym mhob sector | Ar waith |
| ▪ Datblygu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod y prif gyrff a'r unigolion sydd â diddordeb yn ymwybodol o ddatblygiadau | Hydref 2011 |
| ▪ Cynnal record rhagorol o ran ymateb yn gywir ac yn amserol i ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth | Parhaus |
| ▪ Ymwneud effeithiol gyda newyddiadurwyr a chyrrff newyddion | Ar waith |

Amcan 3:

Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru

Deilliannau

- Gweithio gyda chydweithwyr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn yr ymdrechion i ailfantoli'r economi Gymreig
- Gweithio gydag eraill er mwyn annog mewnfuddsoddi i Gymru
- Ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn y gall Cymru ei chynnig yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol

Prif weithgareddau:

A. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cydweithwyr y Llywodraeth clymblaid ac eraill er mwyn annog mewnfuddsoddi a thwf busnes yng Nghymru

▪ Sicrhau bod Grŵp Cyngori ar Fusnes yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn gyfrwng effeithiol i fynegi safbwyntiau busnesau Cymreig ac i egluro effaith polisiau'r Llywodraeth iddynt	Parhaus
▪ Sefydlu cysylltiadau cryfion gyda'r gymuned fusnes yng Nghymru a sicrhau sianelau cyfathrebu effeithiol	Ar waith
▪ Gweithio trwy Masnach a Buddsoddi y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn cynyddu cyfleoedd mewnfuddsoddi	Ar waith

B. Helpu marchnata'r hyn sydd orau am Gymru a'r cyfleoedd geir yma

▪ Gwneud y defnydd gorau o Dŷ Gwydyr, er mwyn marchnata'r hyn sydd orau am Gymru a hefyd cynnal digwyddiadau a chyfarfodydd ar gyfer cyrff allanol	Ar waith
▪ Helpu rhoi cyhoeddusrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth o brif ddigwyddiadau ac atyniadau Cymru	Parhaus

C. Helpu hyrwyddo Cymru fel lle i fyw, ymweld a gweithio.

▪ Meithrin rhwydweithiau cryfion rhwng rhanddeiliaid i helpu hyrwyddo Cymru yn effeithiol.	Ar waith
▪ Sicrhau bod buddiannau ac anghenion Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng ngwelliannau'r Llywodraeth i'r seilwaith trafndiaeth	Parhaus
▪ Gweithio gyda'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod buddiannau ac anghenion Cymru yn cael eu hystyried mewn perthynas â buddsoddi band eang.	Haf 2011
▪ Gweithio gyda'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau fod newidiadau mewn darlledu yn adlewyrchu buddiannau Cymreig, yn enwedig S4C	Parhaus
▪ Gweithio gyda'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod gan Gymru strategaeth dwristiaeth gref a chydlynol	Hydref 2011
▪ Gweithio gyda'r Swyddfa Dramor, Masnach a Buddsoddi y DU, Llywodraeth Cymru ac eraill ar bresenoldeb effeithiol dramor, gan gynnwys yn yr Undeb Ewropeaidd	Parhaus
▪ Gweithio gyda'r Adran Drafndiaeth ac eraill i sicrhau bod gan Gymru strategaeth porthladdoedd gydlynol a chryf	Gaeaf 2011
▪ Helpu datblygu a chyfathrebu gweledigaeth y Llywodraeth ynghylch y Gymdeithas Fawr yng Nghymru	Ar waith

Amcan 4:

Gwneud ein gwaith mewn modd cwrtais, effeithlon, effeithiol a phriodol

Deilliannau

- Y safonau uchaf o ran ymrwymiad a gofal i'n staff
- Cefnogi gweithredu effeithol ar y setliad datganoli trwy sicrhau bod y grant bloc yn cael ei drosglwyddo yn brydlon ac yn ddiogel
- Gweithredu arbedion yn ystod y cyfnod Arolwg Gwariant cyfredol, sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr trwy reoli adnoddau Swyddfa Cymru yn effeithiol ac yn briodol.
- Cefnogi ein cyflenwyr, trwy dalu anfonebau yn gyflym ac yn ddibynadwy

Prif weithgareddau:

A. Cynnal gweithlu cymwys, llawn cymhelliant gan sicrhau ymgynghori gydag aelodau staff ynghylch prif faterion a datblygiadau a'u bod yn gallu cyfrannu tuag at y gwaith o redeg a llywio Swyddfa Cymru i'r dyfodol.	
▪ Sicrhau bod aelodau staff yn cymryd rhan yn yr arolwg ymwneud staff blynyddol, a gweithredu ar y canlyniadau	Hydref 2011
▪ Sicrhau bod anghenion perfformiad a datblygiad staff Swyddfa Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod 2011-12.	Haf 2012
B. Cryfhau a gwarchod asedau Swyddfa Cymru.	
▪ Datblygu rhaglen welliannau barhaus ar gyfer Tŷ Gwydyr er mwyn gwarchod ac adnewyddu'r adeilad rhestredig a sicrhau ei fod yn lle addas ar gyfer gweithio'n gynhyrchiol ac yn ddiogel.	Ar waith
C. Sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian ac yn rheoli costau yn effeithol.	
▪ Datblygu a gweithredu rhaglen o arbedion effeithlonrwydd.	Ar waith
▪ Adolygu trefniadau lefel gwasanaeth gydag adrannau eraill sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn modd effeithlon ac economaidd	Fel bo'r angen
▪ Cyfrannu at dryloywder y Llywodraeth trwy gyhoeddi data am weithgareddau a gwariant Swyddfa Cymru ar www.data.gov.uk ac www.swyddfacymru.gov.uk	Ar waith

CH. Sicrhau rheolaeth ariannol dda

▪ Trosglwyddo taliadau grant i Lywodraeth Cymru	Misol
▪ Paratoi adroddiad cyfrifyddu diwedd blwyddyn, yn cynnwys cyfrifon adnoddau 2011-2012	Chwarterol
▪ Sicrhau bod anfonebau yn cael eu talu yn brydlon o fewn 10 niwrnod gwaith	Parhaus

D. Sicrhau bod y wybodaeth sydd gan Swyddfa Cymru yn cael ei rheoli a'i diogelu'n iawn er mwyn gwarchod buddiannau'r Llywodraeth ac aelodau unigol y cyhoedd.

▪ Cynnal hyfforddiant sicrhau gwybodaeth i bob aelod o staff a'i adolygu'n flynyddol.	Gwanwyn 2012
---	-----------------